Dyletswyddau mewn cysylltiad â chynefinoedd adar gwyllt: Rheoliad 9A Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Trosolwg

Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygiadau) (Saesneg yn unig) yn diwygio Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (Saesneg yn unig), sy'n trosi Cyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop a rhai agweddau ar y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt yn ddeddf.

Mae Rheoliad 9A yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus mewn cysylltiad â chynefinoedd adar gwyllt.

Mae gofyn i Weinidogion roi cyngor i gyrff cyhoeddus ar sut i ddehongli Rheoliad 9A ac i'w roi ar waith, ac ar y camau y byddai'n briodol i gyrff cyhoeddus eu cymryd i gydymffurfio â'r rheoliad. Mae'r nodyn hwn yn rhoi trosolwg o Reoliad 9A ac mae'n gysylltiedig â'r canllaw ar y cyd (Saesneg yn unig) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Defra.

Cefndir y Rheoliad

Amcan Rheoliad 9A (o'i gyfieithu) yw;

gwarchod, cynnal ac ailsefydlu cynefinoedd digonol o ran eu hamrywiaeth a maint ar gyfer adar gwyllt *yn y Deyrnas Unedig, hynny trwy, ymhlith pethau eraill, cynnal, rheoli a chreu cynefinoedd o'r fath, yn ôl y gofyn, gan roi sylw priodol i ofynion Erthygl 2 y Gyfarwyddeb Adar Gwyllt (Saesneg yn unig).*

Mae tair prif ddyletswydd i gyrff cyhoeddus mewn cysylltiad â Rheoliad 9A;

Rhaid i'r awdurdod priodol, y cyrff cadwraeth natur ac yn yr ardal forol, yr awdurdod cymwys ***gymryd camau,wrth arfer eu swyddogaethau, a fyddai yn eu barn nhw yn briodol i gyflawni'r amcan*** *yn unol â'u pwerau (Rheoliad 9A (1)).*

Ac eithrio mewn cysylltiad â'r ardal forol, rhaid i Asiantaeth yr Amgylchedd, y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol, Awdurdod y Broads ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ***gymryd camau, wrth arfer eu swyddogaethau, a fyddai'n briodol yn eu barn nhw i gyfrannu at gyflawni'r amcan*** *(Rheoliad 9A (2)).*

Cyn belled â bod hynny o fewn eu pwerau, rhaid i awdurdod cymwys, wrth arfer unrhyw swyddogaeth yn y DU neu mewn cysylltiad â hi, ***ddefnyddio pob ymdrech resymol i osgoi llygru neu ddirywio cynefinoedd adar gwyllt*** *(Rheoliad 9A (8)).*

Mae gofyn i Weinidogion roi arweiniad priodol yn eu barn nhw i'r cyrff a restrir yn Rheoliad 9A(2) ac i unrhyw awdurdod cymwys arall, i helpu'r cyrff hynny i benderfynu pryd y bydd cynefinoedd adar gwyllt yn ddigonol o ran eu hamrywiaeth a'u maint a pha gamau a allai fod yn briodol iddynt eu cymryd (Rheoliad 9A (10)).

Pan roddir arweiniad o'r fath i gorff, rhaid i'r corff hwnnw roi ystyriaeth i'r arweiniad hwnnw wrth arfer swyddogaeth y mae dyletswydd arno i'w gwneud (Rheoliad 9A (11)).

Mae'r cyfeiriad at "warchod neu wella'r amgylchedd morol" yn adran 123 (3)(a) Deddf y Môr 2009 (Saesneg yn unig) yn cynnwys amcan Rheoliad 9A.

Egwyddorion

Beth yw 'digonol o ran eu hamrywiaeth a'u maint'?

At ddiben yr arweiniad a roddir, dehonglir bod yr amcan yn golygu bod gofyn i arwynebedd y cynefinoedd a'u hamrywiaeth fod yn ddigonol i boblogaethau adar gwyllt yng Nghymru a Lloegr allu cynnal eu niferoedd yn y tymor hir, yn y mannau lle maent yn byw'n naturiol.

Dylai gweithgareddau rheoli ganolbwyntio ar warchod neu adfer cynefinoedd y rhywogaethau hynny sy'n prinhau, neu ar adfer y cynefinoedd hynny, ond gan sicrhau yr un pryd y diogelir y cynefinoedd sy'n cynnal poblogaethau hyfyw o bob aderyn gwyllt.

Wrth ysgwyddo dyletswyddau Rheoliad 9A, rhaid i gyrff cyhoeddus perthnasol ystyried sut orau i gyfrannu at warchod, cyfoethogi ac adfer y cynefinoedd sydd ar gael i adar gwyllt, trwy reoli'r darnau hynny o dir / môr sydd o dan eu rheolaeth a'r darnau o dir / môr y dylanwedir arnynt gan eu swyddogaethau ehangach. I wneud hyn, gallent:

- Nodi'r cynefinoedd sy'n eiddo iddynt a/neu sy'n cael eu rheoli ganddynt ac sydd (neu a allai fod) yn bwysig i grwpiau o rywogaethau o adar gwyllt;
- Penderfynu sut y gallai eu mentrau a'u trefniadau a'u polisïau rheoli yn awr ac yn y dyfodol sicrhau gwelliannau er budd adar gwyllt;
- Hyrwyddo neu gynnal gwaith rheoli, adfer neu greu cynefinoedd trwy eu swyddogaethau ehangach; a
- Lleddfu unrhyw achosion o lygredd a defnyddio pob ymdrech resymol i osgoi llygru neu ddirywio cynefinoedd adar gwyllt.
- Cadw gwybodaeth ynghylch sut y maent wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd – gallai gweinidogion, Cyfoeth Naturiol Cymru neu Natural England ofyn am hyn.

Mesurau sydd â'r nod o ddod â buddiannau i grwpiau o adar sy'n defnyddio'n fras yr un math o gynefin fydd yn debygol o fod yn fwy effeithiol ac o ddod â'r manteision mwyaf. Yn ogystal â gweithio ar sail cynefin, fe allai fod weithiau angen mesur tynnach ei ffocws er mwyn canolbwyntio ar rywogaeth benodol yn hytrach nag ar fath o gynefin.

I helpu i roi arweiniad, cafodd y British Trust for Ornithology (BTO) ei chomisiynu gan Natural England a'i chyllido gan Weinidogion Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Defra i gasglu tystiolaeth pa rywogaethau o adar sy'n prinhau ac i benderfynu ar fesurau rheoli a mecanweithiau darparu y gellid eu defnyddio i wella cynefinoedd a helpu i wyrdroi'r dirywiad. Gweler Adar sy'n Prinhau a Mecanweithiau Darparu (Saesneg yn unig).

Cyd-destun y Polisi

Mae gwarchod adar gwyllt a'u cynefinoedd yn rhan bwysig o bolisi bioamrywiaeth y DU yn ogystal â bod yn ddangosydd pwysig o iechyd ein hamgylchedd naturiol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu ffordd fwy cydgysylltiedig o reoli ein hadnoddau naturiol sy'n seiliedig ar fframwaith polisi a deddfwriaethol sy'n hybu rheolaeth gynaliadwy. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys:-

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – ei hamcan yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gwneud i gyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio rhwystro problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae saith nod iddi, gan gynnwys 'Cymru gydnerth' i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw ac iach. Bydd yr ecosystemau hynny'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd).

- Bil yr Amgylchedd (Cymru) - Prif amcan y bil yw creu deddfwriaeth er mwyn gallu rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy proactif, cynaliadwy a chydgysylltiedig a chreu'r fframwaith deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y Bil yn cryfhau'r ddyletswydd bresennol o ran bioamrywiaeth, gan dynnu sylw at fioamrywiaeth fel elfen hanfodol o gydnerthedd ecosystem. Disgwylir i'r Bil gael cydsyniad y Frenhines yng ngwanwyn 2016.

- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 – ei hamcan yw creu proses effeithlon sy'n sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn. Bydd polisi cynllunio yn rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy gan sicrhau bod penderfynwyr yn cadw cydbwysedd rhwng materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a hefyd yn eu hintegreiddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio unigol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol darparu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol bob pum mlynedd a dynodi ardaloedd cynllunio strategol a chynlluniau datblygu strategol.

- Cynllun Adfer Natur Cymru – y strategaeth a'r cynllun gweithredu cenedlaethol i Gymru. Nod y Cynllun yw mynd i'r afael ag achosion sylfaenol colli bioamrywiaeth drwy; rhoi byd natur wrth galon ein penderfyniadau; gwella cadernid ein hamgylchedd naturiol; cymryd camau penodol o ran cynefinoedd a rhywogaethau. Cyhoeddwyd Rhan 1 'Ein Strategaeth Natur' ar ddiwedd 2015. Mae'n nodi sut y gall ein camau gweithredu presennol a'r rhai arfaethedig gyfrannu at wyrdroi'r dirywiad a fu ym mioamrywiaeth Cymru, yn enwedig y camau sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Mae Rhan 2, y 'Cynllun Gweithredu' yn disgrifio'r camau hynny sydd wedi'u pennu'n benodol i wyrdroi'r dirywiad yn ein bioamrywiaeth. Maent yn cynnwys gwneud bioamrywiaeth yn rhan o bob polisi a strategaeth er mwyn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd, adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a defnyddio atebion ar sail natur i fynd i'r afael â'r pwysau ar fioamrywiaeth.

- Rhaglen LIFE Natura 2000 Cyfoeth Naturiol Cymru - datblygu rhaglen strategol i reoli ac adfer rhywogaethau, cynefinoedd a safleoedd Natura 2000 yng Nghymru. Nod y rhaglen yw cytuno ar set o flaenoriaethau ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd Natura 2000 yng Nghymru, ar y tir ac yn y môr. Bydd yn nodi'r problemau ac yn cynllunio'r gweithredoedd fydd eu hangen i wella'r nodweddion hyn yn fawr a'u diogelu at y dyfodol. Gallai'r gweithredoedd hynny olygu newid polisi, gwelliannau ymarferol bach neu brosiectau cadwraeth arloesol mawr. Bydd y rhaglen yn pennu hefyd o ble daw'r arian ar eu cyfer er mwyn medru cynnal y gweithredoedd hynny erbyn 2020.